

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 6 MAWRTH 2025 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Eifion Jones, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Shan Rees, Meinir James, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Carys Thomas a Viv Davies

Nododd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Cyngor i'r Cynghorydd Viv Davies a oedd yn aros yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Nodwyd estyniad pellach i ymddiheuriadau'r Cynghorydd Davies tan gyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6^{ed} Chwefror 2025.

5. Materion yn Codi

- 1. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Cafwyd cadarnhad bod Hysbysiad Gorfodi diwygiedig wedi'i gyflwyno ar 17^{eg} Chwefror 2025. Nodwyd.
- 2. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 3. FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 4. Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 5. Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 6. Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 7. Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
- 8. Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 9. Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 10. PL/04973 - 1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** - Derbyniodd y Cyngor gadarnhad y gobeithir dod â'r mater gerbron y Pwyllgor Cynllunio ar 27^{ain} Mawrth 2025. Nodwyd.
- 11. Maesglasnant, Cwmffrwd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

- 12. Pryderon ynghylch cyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul** – Cafwyd cadarnhad y bydd GanBwyll wedi gofyn am arolwg cyflymder yn y lleoliad. Nodwyd bod hyn bellach wedi'i gwblhau.
- 13. Goleuadau llwybr troed yn Llandyfaelog** – Roedd yn ymddangos bod y goleuadau wedi'u hadnewyddu ac roedd bellach ymlaen drwy'r dydd a'r nos. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
- 14. Cŵn strae yn Idole** – Parhaodd y mater i gael ei fonitro, gyda llun yn cael ei darparu o un o'r cŵn rhydd. Roedd hyn wedi'i anfon at y Cyngor Sir.
- 15. Pyllau dŵr rhwng cyffordd yr A484 Idole a Chroesyceiliog** – Bydd y mater yn parhau i gael ei fonitro.
- 16. Arwydd 50mya ar yr A484 yn Cherry Trees** – Roedd y Clerc wedi darparu gwybodaeth bellach i'r Cyngor Sir ar y mater gyda gweithrediad yn cael ei aros.
- 17. Marciau ffordd 30mya yn Llandyfaelog** - Nodwyd bod y gwaith marcio ffyrdd wedi'i gwblhau.
- 18. Gwter wedi'i flocio yng Nghilfeithy Uchaf** – Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad ar atgyweiriadau i'r draen sydd wedi cwmpo.
- 19. Bin wedi difrodi yn Fferm Capel** – Roedd clawr y bin wedi'i ailosod. Nodwyd.
- 20. Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau a Cellan – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau** – Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18^{eg} Chwefror. Teimlwyd fod eisiau rhai newidiadau i'r cofnodion a dderbyniwyd. Pan fyddant wedi'u cwblhau, bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i aelodau.
- 21. Parc Solar Heol Ddu – Nododd y Cyng Philip Davies ei ddiddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ac ystyriaeth o'r mater. Nododd y Clerc ei ddiddordeb / gwrthdaro buddiannau yn y mater a hysbysodd y Cyngor na allai felly roi unrhyw gyngor ar y mater i aelodau. Allai ond darparu'r weinyddiaeth fel sy'n ofynnol gan y Cyngor ar ei gyfarwyddiadau ar y mater. Gadawodd y Clerc y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda.**

Nododd y Cadeirydd fod y prosiect wedi cyfarfod â'r Cyngor ar 5^{ed} Mawrth 2025 i dderbyn gwybodaeth ar y mater. Bydd y cofnodion yn cael eu hanfon ymlaen gan y Cadeirydd at y prosiect cyn iddynt gael eu cyhoeddi gan y Cyngor. Bydd Aelodau'n ystyried yr angen i ofyn am ollyngiadau ar gyfer unrhyw fuddiannau canfyddedig sydd ganddynt ac y gallent fod yn briodol i'w datgan. Byddai gohebiaeth gyda'r prosiect drwy'r Cadeirydd am y tro.
- 22. Evans Banks Planning** - Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio - Ffurio Parc Solar yn Tirmably, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DP. Derbyniwyd cadarnhad gan yr ymgeisydd oherwydd nad oedd y safle o faint i fod yn ddatblygiad o bwysigrwydd cenedlaethol, na fyddai budd cymunedol yn cael ei gynnig, nid oedd y cwmni ychwaith yn bwriadu cyfarfod â'r Cyngor. Cafwyd cadarnhad bod y Cysylltiad Grid Cenedlaethol yn ei le.

23. Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Darparodd Ambiwlans Sant Ioan ddyddiadau hyfforddi posibl ar gyfer Mehefin, a chadarnhawyd dyddiad o 9^{fed} Mehefin 2025.

6. Gohebiaeth

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am Sesiwn Briffio Datblygiad Un Blaned a gynhaliwyd ar 12^{fed} Chwefror 2025. Nodwyd.
2. **Comisiwn Ffiniau Gymru** – Gwybodaeth am y Rhaglen Adolygu Etholiadol 2025. Nodwyd.
3. **Menter Cwm Gwendraeth** – Gwybodaeth am y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Mawrth 2025. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod wrth Cyng Meinir James. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd brys C2073 yng Nghwmfelin, Croesyceiliog o 14^{fed} Chwefror 2025 am 5 diwrnod. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru** – Canllawiau Digidol i Gynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
6. **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys** – Cynllun Heddlu a Throsedd 2025-29. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Nodiadau datblygu. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Nodwyd.
9. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol** – Adroddiad Blynyddol 2025-26. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am y gronfa ffyniant a rennir. Nodwyd.
11. **Green Gen** – Gwybodaeth am y broses ymgynghori sydd ar yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda chyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn Llandyfaelog ar 28^{ain} Mawrth 2025. Bydd y Cyngor yn ystyried ymateb i'r mater yng nghyfarfod Cyngor mis Ebrill.
12. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.

7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol

1. **Mainc yng Nghwmale** - Roedd Atgyweiriwr y Cyngor wedi symud y fainc o Landyfaelog i Gwmale. Roedd disgwyl nawr i'w ddisodli gan Star Forge.
2. Roedd gwaith atgyweirio wedi ei wneud i planiwr Cwmffrwd yn fflatiau Pibwrlwyd a'r fainc gyfagos.

8. Atgyweiriwr Cymunedol

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Chwefror gyda chyfanswm cost o £616.00 yn cael ei gytuno. Cymeradwywyd costau ychwanegol o £111.30 ar gyfer gwaith y manylwyd arno yn eitem 7 uchod.

Cyflwynodd y Clerc y tendrau a dderbyniwyd ar gyfer rôl yr Atgyweiriwr fel a ganlyn:

- Michael Leefe £23.00 yr awr

Cymeradwywyd y pris a dderbyniwyd ar gyfer y rôl am flwyddyn ariannol 2025-26.

9. Digwyddiadau Cymunedol 2025

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2025 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol;
- Digwyddiad Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.

10. Cynllunio

1. **PL/08816** - Estyniad ochr deulawr cegin / ystafell wely arfaethedig a throsi storfa gysylltiedig yn anecs mam-gu sy'n atodol i'r prif annedd - Brynhyfryd, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DS. Dim gwrthwynebiadau.

11. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

1. **Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser** – Cytunwyd rhodd o £25.00.
2. **Opera Ieuentid Caerfyrddin** – Cytunwyd rhodd o £50.00
3. **Urdd Gobaith Cymru – Cronfa i bawb.** Bydd y Clerc yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd yn cael ei ddarparu i drigolion ardal Llandyfaelog.
4. **CFfl Llanismel** – Nodwyd bod cais gan CFfl Llanismel i'w dderbyn, os daw i law bydd y mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Ebrill a'r taliad yn cronni i mewn i flwyddyn ariannol 2024-25.

12. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau ganlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Chwefror a costau	£751.49	£26.00 £7.00 £20.00 £13.60 £22.05	£840.14	£310.20		£529.94

2. **Michael Leefe** £727.30 Atgyweiriwr Ionawr (gweler eitem 8)
3. **M Gibbard** £100.00 Arosfan bysiau Croesyceiliog 2024-25
4. **Gwasanaeth Gwybodaeth £25.00 a Chymorth Canser** Rhodd, gweler eitem 11.1
5. **Opera Ieuentid Caerfyrddin £50.00** Rhodd, gweler eitem 11.2

13. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Roedd y Clerc wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir
 - a. Bocs graean i'w lenwi, Maesdolau.
 - b. Problemau a achoswyd gan bibell ddŵr wedi byrstio ym Mhwl y Baw a'r gwaith adfer gan Dŵr Cymru.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 3^{ydd} Ebrill 2025.